# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Oedolion held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 5ed Tachwedd, 2019 at 10.00 am**

| **Cynghorydd Sirol:** | **Officers in Attendance** |
|---|---|
| Cynghorydd Sirol F. Taylor (Cadeirydd)<br><br>Cynghorydd Sirol: L.Brown, R. Edwards, R. Harris, P.Pavia, M. Powell and S. Woodhouse | Julie Boothroyd, Chief Officer Social Care, Safeguarding and Health<br>Eve Parkinson, Head of Adult Services<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu |

**APOLOGIES:** Cynghorydd Sirol L.Dymock

1. **Datganiadau o Fuddiant**

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

3. **Gofal Cartref: Archwiliad i mewn i weithrediad "Troi'r Byd Wyneb i Waered" fel ymagwedd gynaliadwy tuag at Ofal Cartref**

Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad ar ofal cartref yn dilyn ei gyfarfod craffu ym mis Medi. Cydnabu'r Pwyllgor mai "Troi'r Byd Ben i Waered" yw dull y Cyngor o ddatblygu darpariaeth gofal cartref cynaliadwy, ond, ar ôl deall o drafodaethau blaenorol fod y farchnad braidd yn fregus, cytunasant y byddai trosolwg o'r sefyllfa yn y sector gofal cymdeithasol mewn cyfarfod craffu yn y dyfodol yn ddefnyddiol. Cytunodd y Pwyllgor i ganolbwyntio ar yr heriau o fewn y sector a deall sut y byddai'r Cyngor yn ymateb i'r heriau hynny. Roedd dau ddarparwr gofal wedi cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod.

Clywodd yr Aelodau fod darpariaeth gofal cartref yn her gydnabyddedig ledled y DU, ond yr heriau penodol i Sir Fynwy oedd:

- natur wledig y Sir
- y ddemograffeg yng nghanolbarth a De'r Sir, ynghyd â phoblogaeth sy'n heneiddio
- cynnydd mewn anghenion gofal

Clywodd y Pwyllgor fod hyn yn peri heriau o ran sut y gall y gweithlu fodloni'r galw. Mae'r gwasanaethau i oedolion wedi bod yn gweithio ar fodel ("Troi'r Byd Ben i Waered"), a fydd yn cael ei roi ar waith ym mis Ebrill 2020. Darparodd yr adroddiad dadansoddiad cyd-destunol o'r heriau a osodwyd, wedi'i ategu gan ddata a dynnodd sylw at broblemau o ran darparu gofal tymor hwy. Eglurodd swyddogion fod modelau gofal traddodiadol wedi bod yn seiliedig ar ddarparu gofal mewn ffordd drafodol ac er eu bod wedi diwallu anghenion personol, nid yw'n cyfrannu at anghenion iechyd a llesiant tymor hwy unigolyn neu ei deulu a'i ofalwyr. Mae'r model newydd yn bwriadu adeiladu perthnasoedd ystyrlon a darparu model o gymorth sy'n sicrhau canlyniadau gwell i bobl. Clywodd y pwyllgor y dylai'r dull seiliedig ar barthau alluogi deuddeg parth i ddarparu cefnogaeth i unigolion a'u gofalwyr trwy gymysgedd o ofal mewnol a darpariaeth annibynnol ac y bydd llwyddiant y dull seiliedig ar barthau yn cael ei werthuso. Manteision y dull hwn yw datblygu'r berthynas rhwng yr holl randdeiliaid sy'n gweithio yn y maes

a sicrhau bod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a'r ffordd y mae'n dewis byw ei fywyd. Gobeithir y bydd yr ymagwedd yn gwella profiadau defnyddwyr gwasanaethau'n fawr, yn cefnogi eu gofalwyr ac yn darparu rolau boddhaus i'r staff.

**Herio:**

- Gofynnodd yr Aelodau am esboniad o ystyr 'oriau dyledus'.
*Eglurodd y swyddogion, ar hyn o bryd, y mae ar rai pobl yr angen am rywfaint o gymorth ac na allwn ar hyn o bryd ddiwallu'r angen hwnnw yn ei gyfanrwydd ac er bod pobl heb unrhyw gymorth, efallai nad y cymorth a ddarperir yw'r pecyn cymorth delfrydol.*

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y parodrwydd ar gyfer tywydd y gaeaf a phwysau'r gaeaf o ran y galw cynyddol am wasanaethau.

  *Cadarnhaodd swyddogion fod y Cyngor wedi'i baratoi'n addas ar gyfer tywydd garw a bod y cerbydau cywir yn eu lle. Esboniwyd eu bod yn gweithio gyda gwasanaethau eraill, er enghraifft, nyrsys ardal i sicrhau bod pobl ar restr blaenoriaethau'r Cyngor yn cael cymorth.*

- Gofynnodd yr Aelodau am esboniad manwl o'r system yn seiliedig ar barthau. *Cawsant eu bodloni bod y dull wedi'i seilio ar ddadansoddiad o'r boblogaeth, demograffeg a gwledigrwydd ac y dylai lleoli canolfan ganolog gyda pharthau'n seiliedig ar yr hyb alluogi darparu gwasanaethau integredig, fel nad yw'r ddarpariaeth gwasanaeth 'yn cael ei wneud i'r gymuned' ond 'gyda'r gymuned'. Bydd yr ymagwedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bydd yn galluogi mwy o gydgysylltu o lawer. Mae datblygu'r gwaith i'r pwynt presennol wedi cymryd amser ac wedi cael ei wneud mor ofalus. Eglurodd y swyddogion nad ydynt am gael system lle y darperir gofal i berson sy'n gwneud cais am ofal, o ba le bynnag y mae ar gael, a hefyd maent yn ceisio darparu gofal lleol o ansawdd uchel. Dylai'r dull fod yn fwy cynaliadwy a dylai alluogi meithrin cydberthnasau lleol, a fydd yn gwella'r cymorth i'r staff a'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r dull hwn yn wahanol iawn i'r ffordd y darperir gofal mewn siroedd eraill ac y bydd gan gydnabod bod gan bob cyngor ei set ei hun o heriau unigryw, bydd y dull hwn yn darparu ffordd bwrpasol o weithio ar gyfer Sir Fynwy.*

- Gofynnodd yr Aelodau i'r darparwyr gofal gynnig eu barn ar y model cost.

  *Fe wnaethant ymateb i ddweud nad yw'r model cost wedi'i rannu â hwy eto, ond eu bod yn hyrwyddo'r dull gweithredu yr oedd Sir Fynwy yn ei ddilyn. Eglurodd swyddogion fod hyn yn cael ei ystyried yn fawr fel dull partneriaeth o ddarparu gofal ac y bydd recriwtio'r unigolion cywir yn hanfodol. Clywodd yr Aelodau fod recriwtio'r bobl iawn i weithio yn y maes yn gallu bod yn her fawr, oherwydd er bod mentrau recriwtio cenedlaethol, mae angen darparu cymhellion lleol drwy'r gronfa gofal canolraddol i annog pobl i ddod i Sir Fynwy i weithio ~ er enghraifft, a £2000 tuag at fond llety. Mae swyddogion yn ymwybodol bod pobl yn cael hyfforddiant yn y maes hwn, ond nid ydynt yn dod i mewn i'r sector gofal oherwydd cyflogau isel a bod ond ychydig o gymhellion, felly mae mentrau wedi'u targedu yn annog pobl i ymuno â'r sector drwy brentisiaethau gofal a chynlluniau 'dychwelyd i'r gwaith'. Mae staff yn cael eu hyfforddi ar 'recriwtio ar*

*sail gwerthoedd' er mwyn sicrhau bod gan bobl, sy'n cael eu recriwtio, y gwerthoedd pwysig sy'n cyd-fynd â'r rôl.*

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r darparwyr gynnig eu barn ar sut beth yw bod yn ddarparwr annibynnol yn gweithio gyda'r cyngor a sut y gallai'r Cyngor eu cynorthwyo i ymateb i'r prif heriau a wynebir wrth ddarparu gofal cymdeithasol.

  *Ymatebodd y darparwyr gan ddweud mai'r mater allweddol yw recriwtio. Eglurodd y bydd y broses cofrestru newydd ar gyfer gofalwyr, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr gael eu cofrestru erbyn 2020, yn sicrhau bod gofalwyr yn gymwys, ond y gallant hefyd achosi anawsterau wrth recriwtio, o gofio mai dim ond y cyflog byw sy'n cael ei dalu o hyd, sy'n golygu bod y sector yn talu ychydig iawn i bobl i ymgymryd â rôl broffesiynol. Felly, mae rhai gofalwyr profiadol yn ymgymryd â'r cymwysterau er mwyn cael eu cofrestru ar eu traul eu hunain, ac mae cynnal y cofrestriad a'r newid mewn cymwysterau yn gallu bod yn rhwystr, o gofio bod rolau eraill nad ydynt yn broffesiynol mewn adwerthu yn cael eu talu yn yr un modd. Barnwyd bod cyflog y swydd yn fater cenedlaethol, heb fawr ddim dealltwriaeth o bwysigrwydd a natur broffesiynol y rôl. Gan nad oes cynllun ar hyn o bryd i gynyddu'r cyflog ar gyfer y rôl, awgrymodd y gallai unrhyw beth y gellid ei wneud i gymell yn lleol drwy 'waith seiliedig ar barthau' fod o fudd i staff o ran hyblygrwydd ac ardal leol i weithio ynddi. Clywodd yr Aelodau hefyd mai dim ond am yr amser a dreulir gyda'r unigolyn yn hytrach na sifft gyfan y caiff staff eu talu ac y byddai hyn yn cael ei gynorthwyo drwy'r dull newydd. Ym Mrynbuga, mae'r Cyngor wedi bod yn treialu blociau prynu gofal sydd wedi golygu bod staff sy'n gweithio yn ardal Brynbuga yn cael eu talu am eu sifft, sy'n gymhelliant sylweddol i staff. Mae hyn hefyd wedi helpu i sicrhau parhad yn y gwasanaeth.*

- Holodd yr Aelodau a oedd y system sy'n seiliedig ar barthau yn gweithredu mewn ardaloedd eraill.

  *Eglurodd y swyddogion fod y dull wedi'i dreialu ac y bydd yn cael ei roi ar waith ledled y Sir ym mis Ebrill 2020. Eglurodd y darparwr gofal nad yw hyn yn digwydd yn y Fenni ar hyn o bryd a bod y rhai sy'n gweithio ym Mrynbuga yn ennill mwy o ganlyniad. Pe gellid cyflwyno'r dull ar draws y Sir, awgrymodd y byddai hyn yn helpu'r sefyllfa recriwtio'n sylweddol. Esboniodd swyddogion fod angen iddynt roi cymhelliad i Frynbuga gan eu bod wedi cael trafferth i recriwtio, ond ei bod yn ddiddorol iawn clywed bod y dull hwn eisoes wedi darparu amodau gwaith gwell i staff yn ystod ei gyfnod peilot.*

- Gofynnodd yr Aelodau pam fod cymaint o anhawster wrth recriwtio i'r sector ac a oedd y materion yn ymwneud â chyflogau yn unig.
  *Er bod cyflog yn fater allweddol, dywedodd y swyddogion mai'r her fawr hefyd yw recriwtio'r bobl iawn a gwneud y rôl yn ddeniadol. Gallai'r cymhellion a allai ddenu pobl hefyd fod yn gallu creu cysylltiadau ystyrlon â phobl a chydlynu eich diwrnod, felly'r bwriad yw tyfu staff fel adnodd o fewn y parthau. O ran llety a chludiant, mae sgyrsiau'n cael eu cynnal gyda'n hadran dai a Chymdeithas Tai Sir Fynwy. Mae prosiect yn cael ei brofi yn ne'r Sir mewn ardal argyfyngus lle mae 39 o bobl sydd angen gofal, ac mae wedi galluogi model 'byw yno' i gael ei brofi am ofal cartref gan ddefnyddio 2 eiddo yng Nghas-gwent. Mae hyn wedi creu cyflenwad gofal sy'n agos at yr eiddo a thelir cyflog wythnosol i'r gofalwr i ddyfeisio cynllun i ddiwallu anghenion pobl tan fis Ebrill pan fydd*

*"Troi'r Byd Ben i Waered" yn cael ei weithredu. Mae modelau eraill yn cael eu treialu yng Nghas-gwent hefyd.*

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch a oedd anawsterau wrth recriwtio gofalwyr gwrywaidd.

  *Awgrymodd y darparwr gofal, er mai merched sy'n dominyddu yn y maes, eu bod wedi denu gofalwyr gwrywaidd drwy'r 'llwybr gofalwyr' ac nad yw recriwtio wedi bod yn broblem.*

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r darparwyr gofal am eu sylwadau terfynol ar y pwysau a'r heriau.
  *Dywedodd y darparwyr fod Sir Fynwy yn arwain y ffordd o ran datblygu modelau gofal gwahanol a'u bod yn falch o gael y cyfle i gymryd rhan.*
- Tynnodd yr Aelodau sylw at yr angen i werthuso perfformiad y model ar ôl iddo gael ei roi ar waith, yn enwedig o ran canlyniadau i bobl a holodd sut y byddem yn gallu asesu a oedd y model yn cyflawni'r rhain. Roeddent yn cwestiynu a oedd ystyriaeth yn cael ei roi i unrhyw werthusiad academaidd neu a oedd y Cyngor yn bwriadu gwneud hyn yn fewnol. Gofynnwyd sut y byddai rheoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru yn asesu'r model.
  *Ymatebodd swyddogion gan ddweud nad oedd fframwaith ar gyfer gwerthuso ar hyn o bryd ond eu bod wedi cynnal trafodaethau gyda AGC ynghylch y gellid gwerthuso hyn a'u bod yn gwbl ymwybodol o'r cynlluniau. Esboniwyd y byddai'n heriol gan fod y model yn wahanol iawn ac o ystyried y bydd y model newydd yn seiliedig ar berthnasoedd yn hytrach nag ar dasg, bydd hyn yn peri anawsterau o ran mesur ei lwyddiant, o gofio bod y dasg honno'n haws ei mesur. Bydd datblygu dulliau sicrhau ansawdd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn bwysig, yn ogystal â chasglu gwybodaeth drwy wahanol dechnegau mesur, gan ystyried y canlyniadau ehangach, megis llai o bobl yn mynd i'r ysbyty neu'n ymweld â meddygon teulu a allai ddeillio o'r newidiadau. O ran ymchwil, nid yw partner wedi cael ei geisio i werthuso hyn, ond mae trafodaeth gyda chydweithwyr sy'n gweithredu gwahanol fodelau caffael yn awgrymu y byddai angen ystyried y pwynt lle byddai ymchwil yn ddefnyddiol. Y dull a ffafrir byddai siarad â defnyddwyr gwasanaeth i weld a yw eu profiad yn cyfateb i'n canlyniadau disgwyliedig. Esboniwyd nad yw rhai o'r cwynion yn y gorffennol, megis diffyg parhad yn y gofalwr neu'r gofalwyr nad ydynt yn troi i fyny, yn gwynion cyffredin mwyach, sy'n dangos sut mae'r model yn newid profiadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu offeryn digidol o'r enw "Mesur y Mynydd" a all helpu i ddadansoddi'r gwahaniaeth a wnaed.*

- Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion roi eu barn ynghylch a ddylai'r Cyngor gynyddu ei wasanaeth gofal cartref neu wneud partneriaeth ag eraill i ddarparu gofal.
  *Dywedodd y swyddogion eu bod wedi ystyried cyfleoedd i sefydlu menter gydweithredol a theimlai'r staff fod y model sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd yn gweithio'n dda iawn ac os bydd rhywbeth yn gweithio'n dda, pam y byddech yn ei newid. Hefyd, roedd yr archwiliad cynnar o hyn wedi dod i'r casgliad, er bod Sir Fynwy yn dir ffrwythlon ar gyfer cynllun cydweithredol, nad oedd ganddo'r arbedion maint ac nad oedd yr archwaeth yn y farchnad. Eglurodd swyddogion eu bod yn cael y fantais o fod yn hyblyg ar hyn o bryd o ystyried bod darparwyr mawr a bach, darparwyr arbenigol, sy'n cynnig cydbwysedd da.*

**Canlyniad a Chasgliadau'r Cadeirydd:**

Daeth y Cadeirydd i'r casgliad bod cyfraniad y darparwr gofal yn y cyfarfod wedi bod yn ddefnyddiol iawn a bod y Pwyllgor yn teimlo'n dawel ei feddwl y credir bod Sir Fynwy ar flaen y

gad o ran cyflwyno'r model hwn. Roedd y berthynas â'r darparwyr yn amlwg yn cael ei hystyried yn gadarnhaol. Gan gydnabod bod ffactorau sy'n cymhlethu pethau, megis cymwysterau, y broses gofrestru newydd a'r cyfraddau cyflog isel, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn braf gweld bod y Cyngor yn rhoi gwerth mawr ar y rôl ac yn ystyried ffyrdd i gymell. Cytunodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon ar gynllun peilot Brynbuga, sy'n ymddangos fel pe bai'n gweithio'n dda a gofynnodd i'r darparwyr gofal gael eu cynnwys yn y model talu cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn sut y caiff y model ei werthuso, o ystyried y newid o fesur 'tasg ac amser' i fesur 'canlyniadau sy'n seiliedig ar berthynas'. Daeth y Cadeirydd i'r casgliad y bydd y 'dull gweithredu ar sail parthau' yn gam pwysig ymlaen i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gweld wyneb cyfarwydd ac yn datblygu perthynas drwy barhad yn y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am adroddiad cynnydd ymhen 6 mis.

## 4. <u>Adroddiad Perfformiad Diogelu Plant</u>

Cyflwynwyd adroddiad perfformiad ar ddiogelu i'r Pwyllgor er mwyn ystyried cynnydd y Cyngor yn ystod 2018/19 wrth fodloni gofynion Polisi Diogelu Corfforaethol y cyngor a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2017. Cyflwynodd swyddogion yr adroddiad ac egluro bod yr adroddiad gwerthuso yn ceisio sbarduno gwelliant mewn arfer diogelu ar draws y Cyngor ac yn sail i waith Grŵp Diogelu'r Awdurdod Cyfan. Eglurodd swyddogion fod yr adroddiad yn cynnig dealltwriaeth o sut mae pob gwasanaeth yn cyfrannu at ddiogelu a sut roedd yr adran yn cynnal 'archwiliadau diogel' i nodi unrhyw fylchau mewn busnes a sut y byddent yn mynd i'r afael â hwy. Mae'r dull yn ceisio sefydlu a chynnal y safonau uchaf o ran arferion diogelu a byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r aelodau bob blwyddyn. Mae Atodiad 3 yn nodi'r camau allweddol i'w cymryd yn dilyn adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a gynhaliwyd ym mis Medi 2019.

**Herio:**

- Cytunodd yr Aelodau bod cynnwys yr adroddiad yn dda, ond gofynnwyd am i rifau yn ogystal â chanrannau gael eu cyflwyno yn y dyfodol gyda rhestr o acronymau.

- O ran y meysydd hynny lle rydym wedi bod yn hollbwysig o ran "diogelu cadarn", gofynnodd y Pwyllgor pa mor anodd yw hi gyda rhywfaint o'r gweithlu sefydlog i roi newidiadau a dulliau ar waith.
  *Ymatebodd swyddogion ei bod yn gallu bod yn anodd, ond mai'r allwedd yw hyfforddiant a bod safon broffesiynol i'w chyflawni.*

- Nodwyd bod ffigyrau hyfforddiant diogelu yn awgrymu bod angen hyfforddiant ar fwy o bobl, yn enwedig aelodau.
  *Cytunodd swyddogion i wirio'r ffigyrau ar gyfer hyfforddi aelodau, gan ofyn am hyfforddiant lefel 1 yn bennaf.*

- Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion roi eu barn am y rhesymau posibl dros y nifer cynyddol o blant sy'n derbyn gofal.
  *Dywedodd swyddogion fod nifer y plant mewn gofal yn cynyddu'n genedlaethol a bod nifer o ffactorau cyfrannol. Mae'r trothwy ar gyfer dod â pherson ifanc i mewn i ofal yn asesiad anodd iawn sydd angen dyfarniad ac mae'r tîm wedi dadansoddi ei feini prawf i fesur a yw'n rhy uchel neu'n rhy isel a theimlir ei fod ar y lefel gywir.*

monmouthshire
sir fynwy

- Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd a oes proses glir ar gyfer rheoli honiadau proffesiynol a sut y mae ysgolion yn cymhwyso'r broses. Roedd peth pryder y gallai unrhyw anghysondeb yn y modd y cymhwysir y broses effeithio'n andwyol ar les y staff.
  *Ymatebodd y swyddogion bod proses glir ar waith a bod ysgolion yn ymwybodol o'r broses, ond y gellid eu hatgoffa.*

**Canlyniad a Chasgliadau'r Cadeirydd:**

Gofynnodd y Pwyllgor am weithdy ar gyfer aelodau etholedig ar y lefelau trothwy ar gyfer dod â phlant i ofal.

Gofynnodd yr Aelodau i adroddiad byr gael ei gyflwyno ganol y flwyddyn er mwyn:

- egluro'r data ynghylch y nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant diogelu gan Aelodau.

rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am berfformiad cyfarwyddiaethau o ran sicrhau diogelu, unwaith y bydd yr 'archwiliadau diogelu' wedi'u cwblhau a'u dadansoddi.

5. <u>**Adroddiad Refeniw ac Alldro Cyfalaf: Adroddiad monitro cyllideb ar gyfer archwiliad chwarterol.**</u>

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer craffu chwarterol. Tynnodd y swyddog sylw'r Aelodau at baragraff 3.21 yr adroddiad sy'n crynhoi'r sefyllfa gyllidebol ar gyfer y gwasanaethau sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Cydnabu'r Aelodau'r gorwariant o £186 mil yn y gwasanaethau i oedolion a gofynnwyd i'r prif swyddog roi esboniad. Eglurodd y swyddog fod y rhain yn deillio'n bennaf o'r
pwysau staffio net yn Severn View a'r pwysau o fewn y farchnad gofal cartref a esboniwyd yn yr adroddiad sy'n cael ei drafod fel rhan o'r agenda hwn. Dywedodd y swyddog fod rhai o'r rhain wedi cael eu digolledu drwy arbedion rheoli, arbedion i drefniadau gwasanaethau cefnogi unigol a chostau i Budden Crescent.

**Herio:**

- Gofynnodd y Pwyllgor i'r swyddog ddarparu ac esbonio'r gorwariant.
  *Dywedodd y swyddog, fel cam cynnar y flwyddyn ariannol, y rhagwelir gorwariant o £2.26 miliwn, hyd yn oed ar ôl ystyried grant gwerth £738 mil o'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Chynaliadwyedd gan Lywodraeth Cymru ac arbedion wedi'u didynnu o'r gyllideb gwerth £1.246 miliwn fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb. Eglurwyd bod galw parhaus am ofal cartref sy'n rhoi pwysau ar wasanaethau gofal yn y cartref. Er ar 31 Mai 2019, roedd 309 o oriau gofal wythnosol yn aros am froceriaeth gan y gwasanaeth ail-alluogi (a oedd yn cyflwyno tanwariant ar y gyllideb gofal cartref), roedd hyn mewn gwirionedd yn cuddio'r angen ychwanegol am leoliadau preswyl a nyrsio. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gyllideb Oedolion ag Anableddau wedi gweld cynnydd yn yr angen am leoliadau, cyfanswm o 17, a oedd yn cyfateb i fwy na £1,000 yr wythnos. Mae'r rhan fwyaf o'r arbedion a gyllidebwyd gan y Gyfarwyddiaeth wedi'u codi yn erbyn y gyllideb Oedolion, a rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn ystod y cyfnod cynnar hwn o'r flwyddyn ariannol.*

  Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddog egluro'r sefyllfa mewn perthynas â Severn View.
  *Eglurodd swyddogion mai'r goblygiadau ariannol yw bod staff yn sâl a bod angen neilltuo arian ar ei gyfer nad oes cyllideb ar ei gyfer.*

**Canlyniad a Chasgliadau'r Cadeirydd:**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor a oedd yn dymuno craffu ymhellach ar yr adroddiad hwn, ond cytunodd y Pwyllgor ei fod yn dechrau yn y flwyddyn ariannol ac y byddai'n dymuno cadw golwg ar y sefyllfa.

6. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

7. **Blaenraglen Gwaith Pwyllgor Dethol Oedolion**

Nodwyd yr adroddiad a gofynnwyd am i'r diwygiadau a chynnwys ychwanegol o gyfarfod heddiw gael eu cynnwys.

8. **Cynllun Gwaith Cyngor a Chabinet**

Nodwyd y rhaglen ac ni wnaed unrhyw geisiadau i ddod â'r adroddiadau i'r Pwyllgor.

9. **I gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf fel y 10fed o Ragfyr 2019**